**Beirniadaeth gyffredinol**
**Rhif 332 – Rhyddiaith dan 25 oed**
**Araith ar bwnc llosg**
**Beirniad – Huw Foulkes**

Yn y Fic 332/1

Araith yn trafod camddefnyddio alcohol a'r effeithiau ddaw yn sgil hynny. Mae'r cyflwyniad yn ddigon effeithiol gan gyflwyno cwestiynau rhethregol i gyfarch y gynulleidfa. Yn anffodus, mae'r mynegiant yn hirwyntog ar brydiau ac mae gormod o gwestiynau'n cael eu taflu yng nghanol yr araith. Rhaid dewis a dethol a bod yn fwy cryno i sicrhau effaith.

Gwynt 332/2

Tyrbinau Gwynt ydi testun yr araith yma. Mae'r cyfan yn dechrau'n addawol ond mae tuedd i fynd ati i draethu yn hytrach na chyflwyno pwynt a'i gefnogi'n llawn. Fodd bynnag, mae yna ymdrech dda i bwyso a mesur y dadleuon. Yn anffodus mae gwallau iaith sylfaenol - 'am tyrbeini' yn hytrach nag 'am dyrbeini'.

Lolipop 332/3

Araith gryno yn canolbwyntio ar gemegion sigaréts a'u heffaith ar gyrff pobol ifanc. Mae gwall treiglo yn y frawddeg gynta' - 'Croeso gyfeillion' sy'n gywir. Does dim digon o ffeithiau yma i gefnogi'r safbwyntiau ac yn anffodus oherwydd ei hyd, does dim digon o ddyfnder yn y mynegiant.

Arwres 332/4

Dyma araith glir wedi'i strwythuro'n gelfydd. Mae'r ymgeisydd yn canolbwyntio ar dair elfen o fewn y pwnc ac yn llwyddo i gyflwyno ffeithiau'n synhwyrol. Ond mae 'na or-ysgrifennu ar adegau ac o ganlyniad, mae angen tocio yma a thraw. Rhaid gwylio'r brawddegu hefyd. Mae sawl un yn rhy hir ac yn colli cyfeiriad. Daeth yr ymgais yma'n agos iawn at y pump ddaeth i'r brig.

Tylluan 332/5

Iechyd meddwl ydi thema'r araith yma. Defnydd clyfar o eiriau gan ddefnyddio cyflythreniad fel techneg i bwysleisio'r neges. Ond mae lle i gwtogi yma a thraw a hefyd mae mân frychau iaith yn effeithio ar y darllen. Llwydda'r ymgeisydd i ddefnyddio berfau gorchmynnol yn effeithiol a hynny'n rhoi awdurdod.

Neb 332/6

Araith yn canolbwyntio ar bleidlais pobl ifanc sydd yma a'r ymgeisydd yn dadlau'n erbyn gostwng yr oedran. Mae'n cyflwyno'r dadleuon yn danbaid ond mae lle i gwtogi. Yn anffodus, roeddwn yn teimlo fod gormod o draethu ac roedd y cyfan ar ras. Mae angen amrywio'r tempo a chyflwyno ffeithiau a chydnabod ochr arall y ddadl yn llawn. Defnydd da o iaith lafar ac idiomau tafodieithol.

Eirlysiau 332/7

Araith danbaid yn lambastio agweddau tuag at Gymry Cymraeg a'r iaith. Defnydd effeithiol o ddyfyniadau o gerddi amlycaf ein cenedl i bwysleisio'r safbwynt.

Traethu'n ormodol ydi prif wendid yr ymgeisydd. Mae angen arafu'r mynegiant ar brydiau i ddal sylw'r gynulleidfa. Mae'r ysgrifennu'n awdurdodol a daeth yr ymgais yma'n agos iawn at y brig.

Smotyn Bach 332/8

Cefais fy swyno gan ddefnydd Smotyn Bach o iaith a chyfeiriadaeth. Mae'r ymgeisydd yma yn cyflwyno inni ddadl dros annibyniaeth i Gymru. Llwydda i drin pynciau astrus fel yr economi yn ddigon rhwydd gan gefnogi safbwyntiau. Defnyddia ddyfyniadau o'r anthem genedlaethol a cherddi gwladgarol eraill heb dynnu sylw. Mae lle i gwtogi yma a thraw. 3ydd

Pluen Eira 332/9

Sôn am effeithiau peirianneg daearyddol ar yr amgylchedd wna Pluen Eira. Yn anffodus, roeddwn yn teimlo fod yr araith yn rhy dechnegol ac yn cynnwys gormod o wybodaeth allai lethu cynulleidfa. Cyfrinach araith dda ydi cyflwyno safbwyntiau sy'n gallu bod yn gymhleth mewn ffordd syml a chryno. Yn amlwg, mae gan yr ymgeisydd ddealltwriaeth eang o'r pwnc.

Yr Hafod 332/10

Dyfodol yr iaith Gymraeg sydd dan sylw gan Yr Hafod. Mae'n cyfeirio at ffigyrau'r Cyfrifiad i osod cyd-destun yn y cyflwyniad. Yr hyn sy'n plesio am waith Yr Hafod ydi'r enghreifftiau lleol am glybiau ieuenctid a'r cyngor. Mae'n cyflwyno'r araith i gynulleidfa benodol a hynny'n rhoi ffocws a chyfeiriad. 2il

Y Dderwen 332/11

Cydraddoldeb ydi testun araith Y Dderwen sy'n pwyso a mesur safle merched mewn cymdeithas o'i gymharu â safle dynion. Dadl glir sy'n ddealladwy ac yn ddifyr o ran cynnwys. Mae'r pwyntiau'n gryno ac yn bersonol. Ond mae angen llawer mwy o gyfeirio at y gynulleidfa ac oherwydd natur gryno'r araith, does dim llawer o le i ddatblygu pwynt a chefnogi â ffeithiau.

Barcud Coch 332/12

Ysgrif yn hytrach nag araith sydd yma yn ymateb i ganlyniad y refferendwm yn yr Alban. Yn anffodus, does dim i gyfarch y gynulleidfa ac mae yma lawer o draethu heb swmp sylweddol i gefnogi'r dadleuon.

Fflam 332/13

Araith gryno wedi'i saernïo'n ddigon effeithiol. Yn amlwg, mae yma deimladau cryf i ostwng yr oedran pleidleisio ac mae'r ymgeisydd yn cefnogi'r dadleuon â ffeithiau difyr. Mae'r dechneg o restru ar ddechrau'r araith yn gwahodd y gynulleidfa i wrando ac mae hynny'n wreiddiol ac yn dal sylw. Braidd yn swta ydi'r diweddglo ac mae angen amrywio'r tempo hwnt ac yma i gynnal diddordeb. Daeth yr ymgais yma'n agos iawn at y tri sydd ar y brig.

Bedwen Arian 332/14

Fe lwyddodd Bedwen Arian i ddal fy sylw o'r frawddeg gynta'. Dylanwad mewnfudwyr ar y Deyrnas Unedig ydi'r testun. Mae'n cyflwyno ffeithiau'n gywrain ac wedi strwythuro'r araith yn ofalus. Yn sicr, mae yma aeddfedrwydd a

dealltwriaeth gan gyflwyno dwy ochr y ddadl ond hefyd yn pwysleisio'i safbwynt yn glir. Mae'r cwestiwn ar ddiwedd yr araith yn ysgubol ac yn procio'r meddwl. Dyma araith gyflawn wedi sydd ag ôl meddwl dwys. 1af

Popty Ping 332/15

Profi deunyddiau ar anifeiliad ydi testun yr araith yma. Mae angen mwy o gyflwyniad i'r pwnc yn hytrach na chyflwyno ffeithiau yn syth. Yn anffodus, mae gormod o ffigyrau i lethu'r gynulleidfa. Mae angen dewis a dethol er mwyn sicrhau fod y gwrandawyr yn gallu meddwl am y ffeithiau. Defnydd da o ailadrodd fel techneg i bwysleisio safbwynt.